

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Pen-y-bont ar Ogwr**25.06.2018****Ystafell Bwyllgor, Y Swyddfeydd Dinesig**

Presennol	Sefydliad
Alyson Francis	Llywodraeth Cymru
Andrew Davies	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Claire Evans	Heddlu De Cymru
Darren Mepham (Chair)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Donna Baddeley	Cymoedd I'r Arfordir
Heidi Bennett	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol sir Penybont
Helen Matthews	Adran Gwaith a Phensiynau
John Hogg	Cyfoeth Naturiol Cymru
Katy Chamberlain	Business in Focus
Mark Brace	Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Martin Morgans	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Matthew Bennett	Adran Gwaith a Phensiynau
Sian Harrop-Griffiths	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Simon Pirotte	Coleg Penybont
Vaughan Jenkins	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Ymddiheuriadau	
Cllr Huw David	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Eirian Evans	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Huw Jakeway	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Stuart Parfitt	Heddlu De Cymru
Hefyd yn bresennol	
Judith Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Gaynor Griffiths	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Helen Hammond	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr

Eitem ar yr agenda	Sylwadau	Cam gweithredu
1	Croeso, Cyflwyniadau a chofnodion y gweithdy a gynhaliwyd ar 25.03.18	
1.1	Croesawodd Darren Mepham bawb i'r cyfarfod, amlinellodd ganolbwynt y cyfarfod a gofynnodd am gyflwyniadau. Cofnodwyd ymddiheuriadau fel uchod.	
1.2	Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir, ond codwyd cwestiwn ynglŷn ag adnabod aelodau wrth eu llythrennau blaen. Yn dilyn trafodaeth, cytunodd pawb y byddai enwau'r aelodau'n cael eu cofnodi'n llawn.	
1.3	Materion yn codi 3.2 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad yn cadarnhau y bydd terfynau newydd byrddau iechyd yn eu lle erbyn Ebrill 2019. Mae hyn yn golygu bod Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn mynd i symud allan o ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ac y bydd yn dod yn rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.	
1.4	Nododd Darren Mepham fod gan Gwm Taf Gyd-fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a chadarnhaodd ei fod wedi cysylltu â'r Cadeirydd; mae gan y ddau fwrdd rai aelodau'n gyffredin a dylid edrych ar y posibilrwydd o gyfuno dros y flwyddyn i ddod.	

	Cam gweithredu: rhannu dyddiadau BGC Cwm Taf er mwyn i grŵp bychan gymryd y cyfle i fod yn bresennol yn ogystal â'r aelodau presennol.	Tîm cefnogi
1.5	Dywedodd Andrew Davies bod y newid yn y terfyn yn newid cyfundrefnol mawr i reolwyr a chyfarwyddwyr a thynnodd sylw at y perygl i amser pobl. Nododd Siân Harrop-Griffiths fod cydgyfarfodydd Cynllunio a Phartneriaeth yn cael eu cynnal gyda Sue Cooper, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, a chadarnhaodd Andrew Davies ei fod ef yn mynd i fod yn bresennol yn y Bwrdd Trawsnewid ar ddydd Gwener, y 29 ^{ain} o Fehefin ac y byddai yn dod i wybod am faterion strategol.	
1.6	Nid oedd materion pellach yn codi nad oeddent ar yr agenda.	
2	Adborth Is-fyrddau	
2.1	<p>Asedau Pen-y-bont ar Ogwr Rhoddodd Vaughan Jenkins adroddiad.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd nifer dda yn bresennol yn y cyfarfod. • Cymeradwywyd y maes gorchwyl a phenodwyd Gavin Brown yn is-gadeirydd. • Bu'r Aelodau yn trafod pobl ychwanegol i'w gwahodd a'r croesi drosodd gydag is-fyrddau eraill. • Bu'r aelodau yn adolygu'r asedau yr oeddent yn gwybod amdanynt a phenderfynasant gynnal digwyddiad marchnad, a gynlluniwyd ar gyfer 12.10.18, i'w gynnal ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân yn Llantrisant. • Ychwanegodd John Hogg fod y llywodraethu'n iawn a bod y cyfarfod yn gadarnhaol iawn. <p>Nododd Andrew Davies ddiffyg cynrychiolydd o'r Bwrdd Iechyd ac awgrymodd ychwanegu cydweithiwr o'r adran ystadau ac ychwanegodd fod Glanrhyd yn ddiweddar wedi derbyn gwobr y faner werdd.</p> <p>Cam gweithredu: nodi cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd.</p> <p>Cafwyd trafodaeth i ddilyn ynghylch cymuned ac asedau, yr economi gylchol a'r olygfa ehangach, nid yr asedau ffisegol yn unig. Nodir camau gweithredu yn nigwyddiad y farchnad a gwahoddir aelodau ychwanegol i ymuno â'r bwrdd. Cytunodd pawb i symud ymlaen gyda'r digwyddiad.</p> <p>Cam gweithredu: cysylltu â Fforwm Cyngor y Dref i wahodd cynrychiolydd i ymuno ag is-fwrdd Asedau Pen-y-bont ar Ogwr.</p> <p>Nododd Alyson Francis ei bod hi'n mynychu'r cyfarfod asedau rhanbarthol ac ychwanegodd y gallai fod cyfle am gyllid, yn seiliedig ar hyn o bryd ar ôl troed y Bwrdd Iechyd.</p> <p>Cam gweithredu: holi ynghylch y cyllid posibl sydd ar gael.</p>	<p>Andrew Davies</p> <p>Judith Jones</p> <p>Alyson Francis</p>
2.2	<p>Llesiant y Gweithlu Rhoddodd Donna Baddeley adborth o gyfarfod yr is-fwrdd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llauer yn bresennol ac yn llawn brwdfrydedd. • Bu aelodau yn trafod y sefyllfa yn eu sefydliadau gwahanol ac ers hynny mae templed thematig wedi ei lenwi ag arferion gwaith a mentrau presennol. • Awgrymwyd aelodau ychwanegol. • Digwyddiad i arddangos a hybu meysydd o arferion da. • Rhannu gwybodaeth ar arolygon staff gyda chymariaethau ystyrlon. • Defnyddio DEWIS o bosibl. • Rhaglen cydweithrediad arweinyddiaeth. • Awgrymwyd y Safon Iechyd Gorfforaethol fel safon y gallai pob corff yn y BGC ei gefnogi. 	

	<p>Nododd Andrew Davies fod angen i'r Bwrdd Iechyd gefnogi'r is-fwrdd a chytunai y byddai sgiliau mewn gwaith cydweithredol yn werthfawr. Cafwyd trafodaeth i ddilyn ynghylch y Safon Iechyd Gorfforaethol, arolygon staff a'r syniad o nodi llinell waelod, yr oedd Ceri Phillips ym Mhrifysgol Abertawe wedi edrych i mewn iddi o'r blaen.</p> <p>Crybwyllodd Andrew Davies fod y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd wrthi'n dechrau nodi meysydd blaenoriaeth i weithio arnynt gyda phrifysgolion ac awgrymodd ddatblygu cynnig lle y gallai Sandra Husbands fod o gymorth.</p> <p>Ychwanegodd Simon Pirotte fod angen i'r arolygon sefydliadol gynnwys yr un cwestiynau er mwyn rhoi gwybodaeth y gellid ei chymharu ac y gallai mentrau sy'n gweithio yn un sefydliad gael eu mabwysiadu gan eraill. Awgrymodd Andrew Davies gysylltu â chyflogeion drwy'r Undebau yn ogystal â chysylltu â chyflogwyr.</p> <p>Nododd Katy Chamberlain y bydd Busnes Cymru yn cefnogi gweithgaredd i wella iechyd meddwl yng Nghymru drwy'r Cynllun Gweithredu Economaidd.</p>	
<p>2.3</p>	<p>Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Rhoddodd Martin Morgans adroddiad</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd y bartneriaeth yn grŵp oedd yn bod eisoes; cytunodd y BGC y byddai yn dod yn is-fwrdd a chyflawni ei ddyletswyddau drwy'r Cynllun Llesiant. • Mae'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol yn cefnogi cyflawni'r amcan llesiant "Cynorthwyo Cymunedau ym Mhen-y-bont ar Ogwr i fod yn ddiogel a chydlynol." • Yn ychwanegol at y Strategaeth Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r Strategaeth Atal Hunanladdiad, mae pum maes blaenoriaeth wedi cael eu nodi; <ul style="list-style-type: none"> ○ Cysgu allan ○ Troseddu Treisgar Difrifol gan gynnwys Llinellau Sirol - codi ymwybyddiaeth i gymunedau a phobl agored i niwed. ○ Ymgysylltu â'r gymuned ○ Atal twyll i bobl agored i niwed. ○ Dull cyd-drefnedig o gwmpas ymgysylltu ag ysgolion, Cynradd ac Uwchradd hefyd <p>Cafwyd trafodaeth i ddilyn ynghylch y symudiad i ffordd wahanol o weithio ar gyfer grŵp sy'n bod eisoes a phwysigrwydd dangos pa mor dda yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd a chadarnhau'r pwynt hwn.</p>	
<p>2.4</p>	<p>Partneriaeth Ddysgu Pen-y-bont ar Ogwr Rhoddodd Simon Pirotte adborth yn dilyn cyfarfod cychwynnol yr is-fwrdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfod da, penodwyd Lindsay Harvey yn Is-gadeirydd a chymeradwywyd y cylch gorchwyl. • Trafodwyd aelodau ychwanegol ac mae cynrychiolydd o Gyrrfa Cymru i gael ei wahodd. • Gan fod sefydliadau wedi sefydlu eu trefniadau recriwtio a phrentisiaeth eu hunain, nid oedd llawer o awydd am broses recriwtio gyffredin, ond mae yna gyfle i gydweithio ar raglen integredig o weithgarwch hybu. • Cytunwyd i ganolbwyntio ar dri gweithgaredd <ul style="list-style-type: none"> ○ Cynnal digwyddiad i godi ymwybyddiaeth gyda busnesau a sefydliadau lleol i hybu a chydweithio ar brentisiaethau. 	

	<ul style="list-style-type: none"> ○ Datblygu gyda phartneriaid lwyfan cyffredin i hysbysebu prentisiaethau y gall partneriaid a busnesau bychain a chanolig ym Mhen-y-bont ar Ogwr ei ddefnyddio a'i hybu. ○ Canolbwyntio ar hybu prentisiaethau i grwpiau a dangynrychiolir gan gynnwys BME, pobl ag anghenion dysgu ychwanegol, mwy o ferched yn astudio pynciau STEM drwy ddatblygu rhwydweithiau / trefniadau cyswllt gyda grwpiau a dylunio negeseuon i fod yn addas ac yn ddeniadol i'r grwpiau hynny. <p>Cafwyd trafodaeth i ddilyn ynghylch ymgysylltu'n ehangach. Awgrymwyd bod Jeff Peters yn ymuno â'r is-fwrdd i gefnogi ymgysylltu â busnesau lleol a theimlai pawb y gallai partneriaid y BGC wneud mwy drwy rannu dulliau o ymgysylltu er mwyn gwella mynediad a gwybodaeth gyda'r grwpiau hyn.</p>	
<p>2.5</p>	<p>Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd Rhoddodd Alyson Francis adroddiad</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Roedd nifer dda yn bresennol yn yr is-fwrdd, cytunwyd ar y cylch gorchwyl a dilynwyd hyn gan lawer o drafod brwd. ● Bu'r is-fwrdd yn trafod pob un o'r camau o dan yr amcan llesiant a chytunodd ar weithgareddau cychwynnol <ul style="list-style-type: none"> ○ Cynnal cyfres o ddigwyddiadau cydgynhyrchu gyda rhieni i gasglu eu barn. ○ Cymharu gydag allbwn o ddigwyddiad F1000 diwrnod a'r gwasanaethau presennol i nodi meysydd i gyflawni newid. ○ Nodi i ba raddau y gall DEWIS fod yr un ffynhonnell o ddata amlasiantaethol. ○ Gwybod pa mor dda yr ydym yn gwneud o ran mynd i'r afael ag ACE ○ Nodi a hybu mentrau lleol, buddsoddiadau a grantiau i gefnogi mentrau/gwasanaethau sy'n cychwyn yn y gymuned. ○ Bydd yr adroddiad am feichiogrwydd yn yr ardegau sy'n canolbwyntio ar Ben-y-bont ar Ogwr yn cael ei chyhoeddi ym mis Hydref; bydd yr argymhellion yn arwain gweithgaredd yr is-fwrdd. <p>Nododd Andrew Davies fod y tri BGC yn y Bae Gorllewinol yn cymryd y blynyddoedd cynnar fel blaenoriaeth ond maent i gyd yn wahanol iawn ac awgrym rannu meysydd o waith da gyda'i gilydd. Mae gan Abertawe brosiect JigSo sydd wedi ei ddatblygu'n dda, sy'n cefnogi mamau yn eu harddegau gyda deilliannau trawiadol ac mae gan Ben-y-bont ar Ogwr PRAMS ardderchog (gwasanaeth ymateb a rheoli o gwmpas genedigaeth) i famau sy'n profi problemau iechyd meddwl. Cytunai pawb y byddai digwyddiad ar y cyd o fath gweithdy yn ddefnydd da o gronfa Bae Gorllewinol Llywodraeth Cymru.</p> <p>Cam gweithredu: trefnu digwyddiad gweithdy ar y cyd rhanbarthol.</p>	<p>Tîm cefnogi</p>
<p>2.6</p>	<p>Amllder cyfarfod</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Cafwyd trafodaeth i ddilyn ynghylch cynnydd yr is-fyrddau a'r teimlad bod angen i'r BGC gyfarfod yn llai aml. Cytunai pawb y dylai'r BGC gyfarfod bob 6 mis i sicrhau bod pethau'n mynd yn iawn a rhoi cymorth pan oedd angen. ● Awgrymodd Alyson Francis fod cadeiryddion yr is-fyrddau'n cyfarfod yn amlach, a chytunai pawb. ● Awgrymodd Darren Mephram fynychu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill a gofynnodd i aelodau fynegi eu diddordeb. 	

	<ul style="list-style-type: none"> Gofynnodd Simon Pirotte am i restr aelodau pob is-fwrdd gael ei chylchredeg eto. 	
3	Cynghorau Tref a Chymuned ac Aelodaeth o'r BGC	
3.1	Eitem a drafodwyd yn gynharach; cysylltir â Fforwm Cyngor y Dref i wahodd cynrychiolydd i ymuno ag is-fwrdd Asedau Pen-y-bont ar Ogwr.	
4	Llythyr Llywodraeth Cymru i Gadeiryddion ynghylch BGC yn Cefnogi Byrddau Iach	
4.1	Mae Academi Cymru'n cynnig sesiynau hanner diwrnod gyda BGC unigol ar 'Fyrddau Iach'. Mae datganiadau o ddiddordeb yn cael eu gwahodd ar gyfer y sesiynau hyn i gael eu cynnal yn yr Hydref.	
4.2	Cafwyd trafodaeth i ddilyn ynghylch y portffolio o gymorth a gynigir. Cytunai'r Bwrdd y byddai'n well cynnig y cymorth i'r is-fyrddau oedd newydd eu sefydlu gyda chanolbwynt arbennig ar weithio ar y cyd. Cam gweithredu: drafftio mynegiant o ddiddordeb.	Judith Jones
5	Digwyddiad ACE 20 Gorffennaf 2018	
5.1	Gwahoddodd Alyson Francis aelodau i fod yn bresennol yn y digwyddiad cymorth thematig cyntaf, oedd yn cael ei gynnis i'r holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, fyddai'n digwydd yng Nghaerdydd o 10:30 i 15:00 ar 20 Gorffennaf 2018.	
5.2	Amlinellodd Alyson Francis ganolbwynt y digwyddiad, dywedodd y byddai hi'n bresennol a gofynnodd am enwebiadau. Bydd Darren Mephram yn bresennol yn y prynhawn Cam gweithredu: Bydd Siân Harrop-Griffiths yn gwirio gyda Sandra Husbands.	Sian Harrop-Griffiths
6	Gwybodaeth BGC yn unig	
6.1	Gwobrau Ysbrydoliaeth am Oes 12 Gorffennaf 2018 - Diolchodd Judith Jones i'r aelodau am eu cefnogaeth	
6.2	Digwyddiad Cydweithredol y 1000 diwrnod cyntaf 6 Gorffennaf 2018 - Alyson Francis i fod yn bresennol.	
6.3	Digwyddiad Atal a Llesiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 20 Gorffennaf 2018 - Diolchodd Judith Jones i'r aelodau am eu cefnogaeth.	
6.4	Rhaglen Gyfoethogi Gwyliau'r Ysgol (SHEP) - mae SWFRS. SWP a V2C wedi cytuno i gyfrannu i'r rhaglen beilot.	
6.5	Grant Cymorth Llywodraeth Cymru - adroddodd Judith Jones fod yr ail gyflwyniad wedi cael ei gymeradwyo, £54 mil ar gyfer hyfforddiant a gwaith rhanbarthol ar draws Pen-y-bont ar Ogwr, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.	
7	Dyddiad y cyfarfod nesaf	
7.1	Gan fod yr aelodau wedi cytuno i gynnal cyfarfodydd bob 6 mis, cynhelir y cyfarfod nesaf ar 10.12.18.	
7.2	Diolchodd Darren Mephram i Helen Matthews am ei chyfraniad i'r BGC wrth iddi symud ymlaen i'w swydd newydd. Daeth y cyfarfod i ben.	